# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 22 Medi 2015

Amser: 13.30

## (284)v4

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Ymrwymiadau yn ystod y flwyddyn 2015-16

(30 munud)

## 4 Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Creu Cymwysterau Cymru

(30 munud)

## 5 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Iechyd: Cynllun Gofal Sylfaenol - diweddariad ar ôl blwyddyn

(45 munud)

## 6 Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Diweddariad ar Gynllun Cenedlaethol Cyllid Trafnidiaeth 2015

(30 munud)

## 7 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg: Manteisio ar Fand Eang Cyflym Iawn ar gyfer Busnes

(45 munud)

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 i amrywio trefn ystyried gwelliannau Cyfnod 3 i'r Bil Llywodraeth Leol (Cymru)

(5 munud)

**NDM5823 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.36:

Yn cytuno i waredu'r adrannau a'r atodlenni i'r Bil Llywodraeth Leol (Cymru) yng Nghyfnod 3 yn y drefn a ganlyn:

a) adrannau 2 – 47

b) adran 1

c) teitl hir

## 9 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 23 Medi 2015

# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad a gyflwynwyd ar 17 Medi 2015 i'w hateb ar 22 Medi 2015

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch bancio yng Nghymru? OAQ(4)2446(FM)

**2. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella lles cyffredinol plant yng Nghymru? OAQ(4)2454(FM)

**3. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr adroddiad diweddar a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Diogelwch ar y Ffyrdd? OAQ(4)2450(FM)

**4. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn ymdrin â methiannau yn system y GIG yng Nghymru? OAQ(4)2437(FM)

**5. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynnydd tuag at weithredu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013? OAQ(4)2455(FM)

**6. Jeff Cuthbert (Caerffili):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae Cymru'n cael budd o aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd? OAQ(4)2447(FM)

**7. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd):** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda llywodraethau eraill yn y DU am effaith y digwyddiadau diweddar yng Ngogledd Iwerddon ar Gymru? OAQ(4)2445(FM)**W**

**8. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cyflog byw? OAQ(4)2439(FM)

**9. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU am gynnydd o ran datganoli pellach i Gymru? OAQ(4)2453(FM)

**10. Sandy Mewies (Delyn):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynllun cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal iechyd llygaid? OAQ(4)2452(FM)

**10. Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer y GIG yn Nghanol De Cymru am weddill y pedwerydd Cynulliad? OAQ(4)2442(FM)

**12. Keith Davies (Llanelli):** Pa ystyriaeth y mae'r Prif Weinidog wedi'i rhoi i effaith adolygiad siarter y BBC ar Gymru? OAQ(4)2449(FM)**W**

**13. Peter Black (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth y DU ar ffracio ac echdynnu methan gwely glo yng Nghymru? OAQ(4)2440(FM)**

**14. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ardrethu annomestig busnesau hunanarlwyo yng Nghymru? OAQ(4)2443(FM)

**15. Gwyn Price (Islwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am faint o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu a leolir yn Islwyn? OAQ(4)2441(FM)

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar [dudalen y Cyfarfod Llawn]**

**Dydd Mawrth 29 Medi 2015 a dydd Mercher 30 Medi 2015**
**Dydd Mawrth 6 Hydref 2015 a dydd Mercher 7 Hydref 2015**
**Dydd Mawrth 13 Hydref 2015 a dydd Mercher 14 Hydref 2015**

---

**Dydd Mawrth 29 Medi 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Dadl Cyfnod 3 ar y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) o dan Reol Sefydlog 26.44 (180 munud)
  *Os bydd y Cynulliad yn cytuno ar y cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 caiff y gwelliannau eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn ymddangos yn y cynnig. Os nad yw'r Cynulliad yn cytuno ar y cynnig, caiff y gwelliannau eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn ymddangos yn y Bil.*

**Dydd Mercher 30 Medi 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Deisebau – Atal Recriwtio i’r Fyddin mewn Ysgolion (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i’r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i’r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl fer – Mark Isherwood (Gogledd Cymru) (30 munud)

**Dydd Mawrth 6 Hydref 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol: Manteision a ddarperir drwy'r Rhaglen Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi: Yr Argyfwng Ffoaduriaid (30 munud)
- Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod y canlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân:
    - Rheoliadau Trawsblannu Dynol (Deunydd Perthnasol a Eithrir) (Cymru) 2015 – i'w gwneud o dan Adran 7 o'r Ddeddf (10 munud)
    - Rheoliadau Trawsblannu Dynol (Cynrychiolwyr Penodedig) (Cymru) 2015 – i'w gwneud o dan Adran 8 o'r Ddeddf (10 munud)
    - Rheoliadau Trawsblannu Dynol (Personau nad yw’r Galluedd Ganddynt i Gydsynio) (Cymru) 2015 – i'w gwneud o dan Adran 9 o'r Ddeddf (10 munud)
    - Cod Ymarfer yr Awdurdod Meinweoedd Dynol (10 munud)
- Dadl Cyfnod 4 ar y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) (15 munud)

**Dydd Mercher 7 Hydref 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i’r Gweinidog Cyfoeth Naturiol (45 munud)
- Cwestiynau i’r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Deisebau – Deddfwriaeth Orfodol yng Nghymru i Sicrhau Bod Diffibrilwyr ar Gael Ym Mhob Man Cyhoeddus (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Mike Hedges (Dwyrain Abertawe) (30 munud)

Dydd Mawrth 13 Hydref 2015

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Rhaglenni Cydweithio a Strategaeth Tiriogaethol Ewropeaidd (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi: Trechu Tlodi trwy Gymorth Cyflogadwyedd (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus: Cynllun Gweithredu Mentrau Cydweithredol a Chydfuddiannol (30 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg: Gweithredu'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol (30 munud)
- Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Y Pŵer i Ddiystyru Hawddfreintiau a Cheisiadau gan Ymgymerwyr Statudol) (Cymru) 2015 (15 munud)

**Dydd Mercher 14 Hydref 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i’r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth (45 munud)
- Cwestiynau i’r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar ei Ymchwiliad i Dlodi yng Nghymru - Tlodi ac Anghydraddoldeb (60 munud)
- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer - Paul Davies (Preseli Sir Benfro) (30 munud)